

YSGOL GYNRADD LLANFAIR YM MUALLT

Cylchlythyr

Mai 2020

Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Naw wythnos yn ôl , fe wnaethom gau drysau'r ysgol a newidiodd ein bywydau bron dros nos. Ers hynny rydym wedi wynebu sawl her wrth geisio ymdopi ag effaith cloi ar fywyd teuluol ac ar ein bywydau gwaith. Y flaenoriaeth i bawb oedd cadw'n ddiogel a gofalu am les corfforol ac emosiynol ein hunain, ein teuluoedd, ein ffrindiau a 'n cymdogion. Yn briodol iawn, yn ystod cyfnod a gyd-darodd â dathliadau Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop, mae cymunedau wedi dod at ei gilydd i ddangos eu cefnogaeth i'w gilydd mewn ffyrdd sydd o bosibl heb eu gweld ers y rhyfel.

Mae naw wythnos yn amser hir ym mywyd plentyn. Rwy'n siŵr y bydd y rhan fwyaf wedi mwynhau'r 'seibiant' estynedig, a diolch byth bu'r tywydd yn garedig felly mae wedi bod yn haws mynd allan a chwarae. Ar y llaw arall, gwn fod llawer wedi colli eu ffrindiau a cholli arferion rheolaidd wythnos ysgol arferol.

Er bod adeilad yr ysgol wedi cau, mae athrawon wedi parhau i weithio'n eithriadol o galed i ddatblygu ffyrdd newydd o gadw mewn cysylltiad â'u dosbarthiadau a darparu gweithgareddau i blant eu gwneud gartref fel rhan o'n cynllun parhad dysgu. Gyda chymorth y Cynorthwyywyr Dysgu, rydym wedi:

- Gwneud yn siŵr bod cofnodion asesu yn gyfredol hyd at 20^{fed} o Fawrth er mwyn caniatáu i ni ysgrifennu adroddiadau ar gyfer disgyblion a chyflwynir y rhain i rieni yn ddiweddarach y tymor hwn
- Trefnu i ddarparu gliniaduron i deuluoedd nad oes ganddynt fynediad at offer TG.
- Cynhyrchu cynlluniau dysgu i gefnogi datblygiad Llythrennedd, Mathemateg a sgiliau eraill.
- Cynhyrchu fideo wythnosol i gynnal rhyw lefel o gyswllt personol gyda disgyblion.
- Darparu adborth i'r amrywiaeth eang o waith a uwchlwythwyd i dimau neu J2E.
- Wedi ymateb i gwestiynau neu geisiadau am gymorth
- Darparu cymorth ychwanegol i'r disgyblion neu'r teuluoedd hynny a allai fod angen hynny.

Mae'r rhai o'r staff sy'n gallu, hefyd wedi bod yn gweithio'n rheolaidd yn yr Hyb gofal plant brys.

O'r adborth a gawsom gennych, rydym yn gwybod ein bod yn gyffredinol wedi bod yn effeithiol yn ein hymdrechion i weithredu ein cynlluniau dysgu ar lein, ond rydym yn dal i wneud addasiadau mewn ymateb i'ch sylwadau. Er hynny , hoffwn bwysleisio na **fyddem wedi gallu gwneud hynny heb eich cymorth chi** ac yr ydym wedi cael ein syfrdanu gan ymdrechion llawer o deuluoedd wrth gyflawni'r tasgau yr ydym wedi'u gosod a hefyd yn rhannu gyda ni y pethau amrywiol yr ydych chi a'ch plant wedi'u gwneud.

Roeddem wrth ein bodd i weld y cacennau bach mwd yn cael eu gwneud ar gyfer picnic y tedi bêrs; straeon antur y teganau yn y gerddi; y siopau teganau lliwgar ble roedd y plant yn mwynhau chwarae rôl gan ymarfer defnyddio arian: ymchwiliadau gyda cheir yn teithio lawr llethrau ramp; ffeiliau ffeithiau am anifeiliaid sydd wedi'u hysbrydoli gan anifeiliad tegan y plant a fideos am chwarae gitâr drydan cartref a llawer o bethau gwyh eraill!

Mae'r plant hŷn wedi dangos eu sgiliau coginio a chrefft, cynhyrchu cerddi a straeon bendigedig, wedi creu posteri i annog pobl i beidio ag ysmegu ac i ofalu am eu cyrff, wedi uwchlwytho fideos ar sut i wneud model o losgfynydd neu i'n cyflwyno i'w hobiau, anifeiliaid anwes y teulu neu anifeiliaid fferm, wedi trefnu rhai heriau doniol o ran codi arian ac wedi uwchlwytho nifer fawr o ymatebion i'r tasgau Llythrennedd, Mathemateg, Creadigol ac eraill.

RYDYM MOR FALCH O'N CYMUNED YSGOL!

Mor falch mewn gwirionedd eich bod yn gallu cymryd seibiant yr wythnos nesaf oherwydd ei fod yn hanner tymor ac ni fyddwn yn uwchlwytho rhagor o waith am wythnos gyfan! Nid tan Ddydd Llun 1^{af} Mehefin.

Felly beth nesaf?

Y gwir yw, nid ydym yn gwybod am faint yn rhagor y bydd y sefyllfa yma yn parhau. Mae llawer o sibrydion yn y wasg, a gwelwn yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr, ond ni chafwyd dim cyhoeddiadau ffurfiol yng Nghymru yn nodi pryd yn union a sut y bydd ysgolion yn ailagor. Yr hyn y gallaf ei ddweud yw bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi fframwaith clir iawn i awdurdodau lleol ei ddilyn, ac mae arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion yn cysylltu'n rheolaidd ag uwch swyddogion ym Mhowys i sicrhau ein bod yn gallu cynllunio a pharatoi ar gyfer pa gyhoeddiadau bynnag a allai gael eu gwneud yn ystod yr wythnosau nesaf.

Gallai cyfnod o naw wythnos o gau ymestyn yn hawdd iawn i 15 wythnos, 20 wythnos neu fwy. Gallai hyn fod yn llawer iawn o amser i blant fod i ffwrdd o'r ysgol. Rydym benderfynol o sicrhau bod ein cymuned ysgol yn aros yn unedig hyd yn oed os na allwn fod gyda'n gilydd yn gorfforol. Er enghraifft, rydym yn ystyried ar hyn o bryd ar ffyrdd y gallwn sicrhau bod ein disgyblion Blwyddyn 6 yn cael diwedd cofiadwy a hwyliog i'w cyfnod yn yr ysgol gynradd ac rydym hefyd yn cysylltu gyda rhieni'r Cylch ynglŷn â'n cynlluniau trosglwyddo plant o'r Cylch i'r ysgol.

Os nad yw eich plentyn yn defnyddio TEAMS yn rheolaidd, yna byddwn yn eich annog i ystyried yr effaith y gallai absenoldeb o 15 + wythnos ei chael ar eich plentyn heb gyswllt rheolaidd gyda'i ffrindiau, athrawon a staff cymorth, a chymaint yn galetach y gallai fod iddynt pan fyddwn yn dychwelyd i'r ysgol. Wrth gwrs, hoffem i chi wneud rhai o'r gweithgareddau a gynlluniwyd gennym, ond hyd yn oed os ydych yn gwneud eich pethau eich hun gartref, anogwch eich plentyn i fewngofnodi i TEAMS a rhoi gwybod i ni sut mae'n dod yn ei blaen. Rydym yn cydnabod, wrth i rieni ddychwelyd i'r gwaith yn raddol, y bydd hyn yn cael effaith anochel ar eich gallu i gefnogi plant gyda dysgu yn y cartref.

Yn y cyfamser, rydym yn gobeithio y byddwch yn gallu mwynhau wythnos yr hanner tymor ac yn edrych ymlaen at ail-ddechrau eto ym mis Mehefin.

Cofion cynnes

G. Cornelius

Gweler isod neges gan ein Cadeirydd Llywodraethwyr a Ffrindiau'r Ysgol.

Neges gan ein Cadeirydd Llywodraethwyr, Mrs Laura Shewring:

Roeddwn i eisiau ysgrifennu i ddweud diolch yn fawr i bawb sy'n gwneud gwaith gwyb o gefnogi disgyblion i barhau i ddysgu gartref. Bydd eich holl ymdrechion i gadw rhywfaint o barhad a threfn wrth fynd drwy amseroedd heriol o'r fath yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r plant. Dylech fod yn sicr nad oes neb yn disgwyl i rieni a gofalwyr wneud mwy nag y teimlant y gallant, boed yn fawr neu'n fach, gan ein bod i gyd yn ymwybodol bod amgylchiadau cartref pawb yn wahanol. Mae'r ysgol yn darparu ystod ardderchog o gymorth i ddisgyblion i barhau â'u dysgu ond rydym bob amser yn awyddus i dderbyn adborth er mwyn addasu a datblygu'r adnoddau hyn, felly teimlwch yn rhydd i roi gwybod i ni beth sy'n gweithio'n dda/ddim cystal i'ch teulu. Fel llywodraethwyr, mae ein gwaith yn parhau, gan edrych ar y staff a phenderfyniadau'r gyllideb, cefnogi'r ysgol yn ôl yr angen ac wrth gwrs ystyried yr ymateb i bandemig a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno â mi fod staff yr ysgol yn gwneud gwaith rhagorol, gyda llawer hefyd yn gweithio yn y canolfannau gofal plant yn ogystal. Fel arfer, os oes gennych unrhyw faterion, sylwadau neu ganmoliaeth yr hoffech dynnu sylw arbennig atynt, yna gallwch gysylltu â mi yn uniongyrchol drwy Swyddfa'r Ysgol. Yn y cyfamser, gobeithio y byddwch chi a'r plant yn gallu mwynhau seibiant dros hanner tymor.

Yn gywir

Laura Shewring

... a neges gan **Ffrindiau Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt** :



Yn ystod y cyfnod anodd hwn, ydych chi'n gwneud mwy o siopa ar-lein o'ch sofffa? Gallech hefyd helpu **Ffrindiau Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt** i godi arian sydd ei angen yn fawr am ddim! Mae dros 4,000 o fanwerthwyr ar-lein gan gynnwys John Lewis, Argos, uSwitch, eBay a M & S yn barod i roi rhodd am ddim bob tro y byddwch yn siopa ar-lein.

Defnyddiwch y ddolen isod i gefnogi ein hysgol.

Dim ond 2 funud y mae'n ei gymryd i gofrestru.

https://www.easyfundraising.org.uk/causes/fobwcps/?utm_campaign=raise-more&utm_content=cpl

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.